



GWASANAETH ARCHIFAU  
ACHREDEDIG

---

ACCREDITED  
ARCHIVE SERVICE

# Achrediad Gwasanaethau Archifau: Graddfeydd

Mehefin 2018

## **Graddfeydd Safon yr Achrediad Gwasanaethau Archifau**

Safon yr Achrediad Gwasanaethau Archifau yw'r safon genedlaethol ar gyfer y gwasanaethau archifau yn y Deyrnas Unedig, ond nid yw'n safon 'un maint sy'n addas i bawb'. Mae gwasanaethau archifau yn amrywio o ran maint a'r modd y cânt eu llywodraethu. Mae'r dangosyddion isod yn dangos nodweddion eang sail gyfreithiol, maint casgliadau, rôl gyhoeddus ac arlwy'r gwahanol fathau o wasanaethau archifau sy'n gweithredu o fewn y DU, er mwyn rhoi tryloywder i'r broses asesu.

Defnyddir graddfeydd i helpu gwasanaethau archifau i ddeall yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau o'u math a'u maint hwy, a chyfeirir atynt ledled y 'Canllawiau wrth ddatblygu a llenwi cais' sydd yn ddogfen ar wahân, lle roddir arweiniad yn ôl graddfa. Bydd yr aseswyr hefyd yn defnyddio dangosyddion y graddfeydd fel arweiniad yn ystod y broses asesu fel un ffordd o ddeall rôl y gwasanaeth archifau.

Nid oes angen i wasanaethau archifau fodloni pob dangosydd ar y raddfa, ac mae'n bosib y gwelant eu bod yn eistedd rhwng dwy stôl. Dylai gwasanaethau archifau ddefnyddio'r dangosyddion priodol o fewn y ddogfen hon i benderfynu pa raddfa sy'n cyd-fynd orau â'u gweithrediad hwy. Nid yw'r holl ofynion wedi'u gwahaniaethu oherwydd bydd meysydd sy'n gyffredin i bob gwasanaeth archifau. Mae'r gyllideb gweithredu wedi'i gadael allan yn benodol fel dangosydd.

Os ydych yn cael trafferth nodi graddfa eich gwasanaeth, mae cyfrifiannell wedi'i darparu i roi arweiniad ychwanegol i chi.

## Gwasanaethau Archifau Llywodraeth Leol

	<b>Math un</b>	<b>Math dau</b>
Diffiniad CIPFA	Bach	Mawr
Statws Lleoliad Adneuon	Heb ei benodi	Yn debygol o gael ei benodi
Maint Daliadau Analog yr Archifau	Hyd at 100 m ciwbig	Dros 100 m ciwbig
Maint Daliadau Digidol yr Archifau	Hyd at 20 GB	Dros 20 GB
Cyfansoddiad	Rhan o gorff sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000), neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (yr Alban), neu gorff sydd wedi'i gontractio'n allanol i ddarparu gwasanaethau archifau ar ran un neu ragor o gyrff o'r fath	Rhan o gorff sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000), neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (yr Alban), neu gorff sydd wedi'i gontractio'n allanol i ddarparu gwasanaethau archifau ar ran un neu ragor o gyrff o'r fath
Gweithlu	Rheolwr/archifydd proffesiynol sy'n derbyn tâl, staff ategol	Archifwyr proffesiynol sy'n derbyn tâl, a staff proffesiynol perthnasol sy'n cefnogi dysgu/allgymorth/technoleg/go fal a chadwraeth casgliadau
Ar agor	Mynediad rheolaidd ar y safle ac yn datblygu presenoldeb ar-lein	Mynediad rheolaidd ar y safle a chymorth ymchwil ar-lein cryf
Yr arlwy i ddefnyddwyr	Ystafell ddarllen. Allgymorth i gymunedau ehangach/addysg. Canolbwyntio ar ddefnyddio archifau ar gyfer dysgu ac ymgysylltu gan sefydliadau eraill.	Ystafell ddarllen. Datblygu cynulleidfa ac allgymorth i gymunedau ehangach/addysg. Datblygu dysgu ac ymgysylltu mewnol, ochr yn ochr â chydweithio ag eraill.

<p>* Gofynion deddfwriaethol ar gyfer mynediad i'r cyhoedd</p>	<p>Deddf Llywodraeth Leol 1962 a 1972, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, deddfwriaeth Diogelu Data, Rheolau Dogfennau Maenoraidd, Rheolau Dogfennau'r Degwm, Mesur Cofnodion a Chofrestri Plwyfol, a60 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Deddf Llywodraeth Leol (yr Alban) 1994, Deddf Cofnodion Cyhoeddus (yr Alban) 2011, Deddf Rhyddid Gwybodaeth (yr Alban) 2002, Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015</p>	<p>Deddf Llywodraeth Leol 1962 a 1972, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, deddfwriaeth Diogelu Data, Rheolau Dogfennau Maenoraidd, Rheolau Dogfennau'r Degwm, Mesur Cofnodion a Chofrestri Plwyfol, a60 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Deddf Llywodraeth Leol (yr Alban) 1994, Deddf Cofnodion Cyhoeddus (yr Alban) 2011, Deddf Rhyddid Gwybodaeth (yr Alban) 2002, Deddf Cofnodion Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 1923, Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015</p>
<p>Enghraifft o wasanaeth</p>	<p>Llyfrgell Astudiaethau Lleol ac archifau bwrdeistref</p>	<p>Gwasanaeth Dinesig neu ledled y Sir</p>

### Gwasanaethau archifau eraill yn y sector cyhoeddus

	<b>Math un</b>	<b>Math dau</b>
Statws Lleoliad Adneuon	Heb ei benodi yn ôl pob tebyg	Gallai fod wedi'i benodi os yn berthnasol
Cyfansoddiad	<p>Rhan o gorff sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000), Deddf Rhyddid Gwybodaeth (yr Alban), neu gorff a gontractiwyd yn allanol i ddarparu gwasanaethau archifau ar ran un neu ragor o gyrff o'r fath.</p> <p>Yng nghyd-destun prifysgol, gallai fod yn rhan o strwythur rheoli cofnodion y brifysgol neu wasanaeth llyfrgell sy'n cadw casgliadau arbennig yn hytrach na gweithrediad sy'n cyfuno cofnodion mewnol ac allanol.</p>	<p>Rhan o gorff sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000), Deddf Rhyddid Gwybodaeth (yr Alban), neu gorff a gontractiwyd yn allanol i ddarparu gwasanaethau archifau ar ran un neu ragor o gyrff o'r fath.</p> <p>Yng nghyd-destun prifysgol, gallai ddarparu mynediad at archifau prifysgol a chasgliadau arbennig.</p> <p>Yn cynnwys cyrff cenedlaethol a gyfansoddwyd drwy Ddeddf Seneddol (gweler hefyd y nodyn isod ynghylch archifau gwladol) a chyrff eraill sydd â chylch gwaith cenedlaethol yn eu cyfansoddiad neu'u disgrifiad o ddaliadau.</p>
Maint Daliadau Analog yr Archifau	Hyd at 100 m ciwbig	100 m ciwbig neu fwy
Maint Daliadau Digidol yr Archifau	Hyd at 20 GB	Dros 20 GB

Gweithlu	Dan reolaeth staff cymwys <sup>1</sup> , gyda mynediad at arbenigedd archifol proffesiynol sy'n briodol i faint a natur y corff a'r casgliad. Yn aml, yng nghyd-destun gweithrediadau rheoli cofnodion neu lyfrgelloedd ehangach.	Archifydd/rheolwr proffesiynol sy'n derbyn tâl a staff proffesiynol perthnasol sy'n cefnogi'r dysgu/allgymorth/technolog/gofal casgliadau a chadwraeth a gynigir.
Ar agor	Mynediad rheolaidd ar y safle	Mynediad rheolaidd ar y safle a chymorth ymchwilio ar-lein cadarn
Yr arlwy i ddefnyddwyr	Yn canolbwyntio'n bennaf ar ymchwilwyr arbenigol/mewnol  Gallai mynediad i'r cyhoedd fod drwy apwyntiad neu drwy oriau agor cyfyngedig	Ffocws cryf ar ymchwilwyr arbenigol/mewnol. Ymrwymiad sefydliadol i fynediad rheolaidd i'r cyhoedd a disgwyliad o hynny.  Arlwy eang i ddefnyddwyr gan gynnwys datblygu cynulleidfaoedd yn ogystal â mynediad rheolaidd ar y safle a datblygu presenoldeb ar-lein
Gofynion deddfwriaethol ar gyfer mynediad i'r cyhoedd	Deddf Rhyddid Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth (yr Alban)  Yn dibynnu ar y daliadau ond gallai rhai casgliadau hefyd gael eu llywodraethu gan y Ddeddf Diogelu Data, Rheolau Maenoraidd a/neu'r Degwm, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol  Mae archifau mewn Llyfrgelloedd Prifysgolion a chyrrff diffiniedig eraill y Sector Cyhoeddus yn ddarostyngedig i Reoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015	Deddf Rhyddid Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth (yr Alban)  Yn dibynnu ar y daliadau ond gallai rhai casgliadau hefyd gael eu llywodraethu gan y Ddeddf Diogelu Data, Rheolau Maenoraidd a/neu'r Degwm, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol  Mae archifau mewn Llyfrgelloedd Prifysgolion a chyrrff diffiniedig eraill y Sector Cyhoeddus yn ddarostyngedig i Reoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015

<sup>1</sup> Yn unol â'r disgrifiad yn PAS 197 "Person cymwys – rhywun sy'n meddu ar hyfforddiant, gwybodaeth, profiad, arbenigedd a sgiliau digonol a/neu gyneddffau eraill i gwblhau'r dasg a roddwyd iddynt yn ddiogel ac yn effeithiol "

Enghraifft o'r math o wasanaeth	Archifau Ysbyty a gwasanaeth rheoli cofnodion. Archifau Prifysgol gyda mynediad at arbenigedd perthnasol.	Archifau a Chasgliadau Arbenigol Prifysgolion, Archifau Amgueddfa Mawr
---------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------

## Gwasanaethau archifau sector preifat a thrydydd sector

	<b>Math un</b>	<b>Math dau</b>	<b>Math tri</b>
Statws Lleoliad Adneuo	Heb ei benodi yn ôl pob tebyg.	Heb ei benodi yn ôl pob tebyg.	Gallai fod wedi'i benodi os yn berthnasol.
Cyfansoddiad	Amrywiol	Amrywiol	Amrywiol
Gweithlu	Yn nodweddiadol, gwirfoddolwr neu aelod staff heb ei hyfforddi'n llawn yn nisgyblaethau Rheoli Archifau a Chofnodion, gyda chynghor proffesiynol priodol o ffynhonnell allanol	Archifydd proffesiynol a/neu reolwr cofnodion	Archifydd(wyr) proffesiynol sy'n derbyn tâl, a staff proffesiynol perthnasol sy'n cefnogi'r arlwy o ran dysgu / allgymorth / technoleg / gofal casgliadau a chadwraeth
Ar agor	Gellir trefnu mynediad i'r safle neu mae'n rheolaidd ond gydag oriau agor cyfyngedig	Mynediad rheolaidd i'r safle	Mynediad rheolaidd i'r safle a/neu bresenoldeb cryf ar-lein
Maint Daliadau Analog yr Archifau	O dan 50 m ciwbig. Cyfeiriwch at y meini prawf cymhwyster i sicrhau bod eich gwasanaeth yn gymwys.	Rhwng 50 a 100 m ciwbig	100 m ciwbig neu fwy
Maint Daliadau Digidol yr Archifau	Llai na 10 GB	Rhwng 10 ac 20 GB	Dros 20 GB
Yr arlwy i ddefnyddwyr	Yn canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddwyr busnes cymunedol/mewnol	Ffocws arwyddocaol ar ddefnyddwyr busnes mewnol Gallai mynediad i'r	Ymrwymiad gan y sefydliad i hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd at



	Gallai mynediad i'r cyhoedd fod drwy apwyntiad neu drwy oriau agor cyfyngedig neu drwy fynediad cyfryngol ar-lein	cyhoedd fod drwy apwyntiad neu drwy oriau agor cyfyngedig, neu drwy fynediad cyfryngol ar-lein	gasgliadau  Datblygu cynulleidfa ac allgymorth i grwpiau amryfal o ddefnyddwyr a/neu ddatblygu arlwy ar-lein
Gofynion deddfwriaethol ar gyfer mynediad i'r cyhoedd *	Yn dibynnu ar y daliadau ond gallai rhai casgliadau hefyd gael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth Diogelu Data, Rheolau Maenoraidd a/neu'r Degwm	Yn dibynnu ar y daliadau ond gallai rhai casgliadau hefyd gael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth Diogelu Data, Rheolau Maenoraidd a/neu'r Degwm	Yn dibynnu ar y daliadau ond gallai rhai casgliadau hefyd gael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth Diogelu Data, Rheolau Maenoraidd a/neu'r Degwm
Enghraifft o'r math o wasanaeth	Busnes bach; amgueddfa fach annibynnol	Busnes canolig; Corff arbenigol	Busnes mawr; Elusen; Amgueddfa / cymdeithas ddysgedig.

\*Braslun yn unig. Bydd deddfwriaeth arall yn effeithio ar fynediad at ddsbarthiadau penodol o gofnod.

## **Dangosyddion Cyfreithiol**

### **Cyrff Cofnodion ac Archifau Cenedlaethol**

Gwasanaethau archifau a gaiff eu rhedeg gan gyrff a gyfansoddwyd drwy Ddeddf Seneddol. Byddant yn cynnig cyfleusterau i ymwelwyr sy'n briodol i gorff cenedlaethol, sy'n dal ac yn datblygu casgliad sy'n arwyddocaol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyfleoedd ardderchog i ymgysylltu drwy ddysgu, ymchwil a chyfranogaeth.

### **Mannau adneuo yng Nghymru a Lloegr**

Mae cofnodion cyhoeddus, yn unol â diffiniad Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 a diwygiadau dilynol i atodlenni cofnodion o'r fath sydd ynghlwm, yn destun rheolaeth statudol a chânt eu rhoi dan oruchwyliaeth y Ceidwad Cofnodion Cyhoeddus (Prif Weithredwr yr Archifau Gwladol), a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cedwir llawer o'r cofnodion hyn mewn manau adneuo lleol, y mae'n rhaid i'r Ceidwad eu cymeradwyo. Mae gofynion penodol ar gyfer manau adneuo sydd, fodd bynnag, wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i ddarparu ar gyfer eu rheoli, eu cadw'n ddiogel a mynediad, ac nid ydynt yn cyfateb i safon. Mae disgwyl i sefydliadau sy'n gweithredu manau adneuo ofalu am y cofnodion cyhoeddus sy'n eu gofal a sicrhau eu bod ar gael yn unol â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 a 1967, Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Ar y cyfan, mae disgwyl i Fannau Adneuo awdurdodau lleol fodloni safonau sy'n ddisgwyliedig gan archifau awdurdod lleol math 2; Mannau Adneuo eraill y raddfa y mae eu gwasanaeth archifau yn cyd-fynd â hi yn gyffredinol. Mae gwybodaeth sy'n benodol ar gyfer Mannau Adneuo o safbwynt achrediad ar:

<http://www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/approved-places-of-deposit.htm>

Mae rhagor o ganllawiau manwl ynghylch gofalu a rheoli cofnodion cyhoeddus mewn manau adneuo, a'u rhoi ar fenthyg, eu rhoi fel rhodd, eu difa, eu trosglwyddo, neu'u cadw'n weinyddol, i'w cael ar wefan yr Archifau Gwladol sydd hefyd yn rhestru manau cymeradwy o'r fath.